



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Polisi Cyhoeddus Diogelu Data Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon LL55 1TH

Cynnwys

1	Pwrpas	1
2	Eich hawliau a sut i gyflwyno cais	1
3	Trefniadau'r Comisiynydd	2
4	Polisiâu llywodraethu gwybodaeth cyhoeddus eraill Comisiynydd y Gymraeg	3

1 Pwrpas

- 1.1 Mae'r polisi hwn yn nodi'r trefniadau sydd ar waith gan Gomisiynydd y Gymraeg i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data¹. Mae hefyd yn cynnwys manylion am sut i wneud cais dan y ddeddfwriaeth.

2 Eich hawliau a sut i gyflwyno cais

- 2.1 Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gydymffurfio'n llawn â'r Deddfwriaeth Diogelu Data a bydd yn ymgymryd â dilyn yr hawliau mae'r ddeddfwriaeth yn eu rhoi i unigolion. O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawliau dros eich gwybodaeth. Mae gennych hawl i ofyn i'r Comisiynydd am gopi o'r wybodaeth mae'n ei ddal amdanoch.
- 2.2 Mae gennych hefyd hawl i ofyn i'r Comisiynydd:
- I gywiro unrhyw wybodaeth anghywir sydd ganddo amdanoch;
 - I dileu'r wybodaeth sydd ganddo amdanoch mewn rhai amgylchiadau;
 - I stopio defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer pwrpasau penodol.
- 2.3 Bydd y Comisiynydd yn defnyddio bob ymdrech resymol yn gyson â'i ddyletswydd gyfreithiol i gyflenwi, cywiro neu ddileu gwybodaeth bersonol amdanoch sydd ar ei ffeiliau. Mewn rhai achosion, efallai na fydd modd i'r Comisiynydd gydymffurfio gyda'ch cais. Ond os felly, bydd yn dweud wrthy ch ac yn egluro pam.

Gwneud cais

- 2.4 Os byddwch yn gwneud cais am gopi o'ch gwybodaeth, bydd angen iddo fod yn ysgrifenedig. Mae'n bosibl y bydd angen i chi brofi pwy ydych chi drwy ddarparu gwybodaeth adnabod gymeradwy. Unwaith y bydd y rhain gan y Comisiynydd, bydd yn ymateb i chi o fewn mis.
- 2.5 Os byddwch yn gwneud cais i gywiro eich gwybodaeth, gallwch wneud hyn ar lafar neu yn ysgrifenedig. Bydd y Comisiynydd yn rhoi ymateb i chi o fewn mis. Mewn rhai achosion, efallai na fydd modd i'r Comisiynydd gydymffurfio gyda'ch cais. Ond os felly, bydd yn dweud wrthy ch ac yn egluro pam.
- 2.6 Ni fydd y Comisiynydd yn codi ffi arnoch am ddelio â'ch cais am gopi o'ch gwybodaeth bersonol (oni bai fod eich cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, er enghraifft os byddwch yn gwneud ceisiadau dro ar ôl tro).

¹ Mae **Deddfwriaeth Diogelu Data** yn golygu Deddf Diogelu Data 2018 (Data Protection Act 2018) ac unrhyw gyfraith neu reoliad cymwys sy'n ymwneud â phrosesu data personol a phreifatrwydd fel y diwygir, adolygir neu newidir y deddfiad hwnnw o dro i dro, gan gynnwys yn sgil gweithredu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ("GDPR") (EU) 2016/679].

2.7 Dylech anfon eich cais at y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol yn y cyfeiriad isod:

- trwy neges e-bost at sylw'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol trwy: post@cyg-wlc.cymru; neu
- drwy'r post at:
Cyfyngedig: Personol
Y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol
Comisiynydd y Gymraeg
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

3 Trefniadau'r Comisiynydd

Cyfrifoldebau

- 3.1 Comisiynydd y Gymraeg, fel Swyddog Cyfrifyddu, sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol am Lywodraethu Gwybodaeth, ac yn y pen draw sydd yn gyfrifol am bennu'r polisiau sy'n berthnasol i wybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Comisiynydd. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn rhoi sicrwydd, drwy'r Datganiad Llywodraethiant blynyddol, bod pob risg i'r Comisiynydd, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth, yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol.
- 3.2 Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth sy'n cael ei chadw ym meysydd eu cyfrifoldeb yn cydymffurfio'n llawn â'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu pennu gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth sy'n cael ei phrosesu gan gontractwyr, partneriaid neu awdurdodau eraill sy'n gweithio o dan unrhyw gytundeb gyda'r Comisiynydd.
- 3.3 Mae holl swyddogion yn gyfrifol am brosesu gwybodaeth yn unol â'r polisiau, y gweithdrefnau a'r arweiniad a'r fframwaith cyffredinol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth sy'n cael eu pennu gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 3.4 Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol, sydd hefyd yn gweithredu fel y Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am weinyddu pob cais am fynediad gwrthrych at wybodaeth sy'n cael eu gwneud i'r Comisiynydd. Bydd y Cyfarwyddwr hwn hefyd yn bwynt cyswllt i holl swyddogion y Comisiynydd sydd angen cyngor ar faterion diogelu data.

Hyfforddiant

- 3.5 Bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod ei holl swyddogion yn derbyn hyfforddiant sydd yn briodol i'w cyfrifoldebau o dan y polisi hwn a'i weithdrefnau a'i arweiniad cysylltiedig.

- 3.6 Bydd y Comisiynydd hefyd yn sicrhau bod contractwyr a sefydliadau sy'n gweithio o dan gytundebau lefel gwasanaeth a chytundebau partneriaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i Gomisiynydd y Gymraeg fel prosesyddion data a bod ganddynt fodd digonol ar waith i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn gymwys.

Monitro, adolygu a dod i benderfyniad

- 3.7 Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o'r holl geisiadau a gaiff am ddatgelu data personol a wneir o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data a'r camau a gymerwyd mewn perthynas â phob cais.
- 3.8 Mae gan y Comisiynydd weithdrefnau ar waith ar gyfer adolygu'n systematig ei drefniadau ar gyfer gweinyddu a rheoli data personol.
- 3.9 Bydd y Comisiynydd yn cofnodi pob cwyn a gaiff ynghylch ei drefniadau diogelu data a bydd yn sicrhau bod unrhyw bwyntiau dysgu sy'n deillio o gwynion o'r fath yn cael eu defnyddio i wella polisiau a gweithdrefnau.
- 3.10 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol, yn effeithiol ac yn cymryd arfer dda sy'n dod i'r amlwg i ystyriaeth. Lle bod cyfarwyddiadau cyfreithiol newydd yn dod i rym, bydd y polisi yn cael ei adolygu yn unol â dyddiad cychwyn y ddeddfwriaeth honno.

Cwynion neu ymholiadau

- 3.11 Os oes gennych gŵyn ynghylch y ffordd mae'r Comisiynydd wedi ymateb i gais o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, dylech ofyn i'r Comisiynydd i adolygu ei benderfyniad. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn apêl.
- 3.12 I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at *Weithdrefn Gwyno am Weithredoedd neu Anweithiau'n Ymwneud ag Arfer Swyddogaethau'r Comisiynydd*. Bydd yr adolygid yn cael ei gyflawni gan swyddogion priodol y Comisiynydd. Os byddwch yn anfodlon â hyd, gallwch godi'r mater gyda [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

4 Polisiau llywodraethu gwybodaeth cyhoeddus eraill Comisiynydd y Gymraeg

Hysbysiad Preifatrwydd

- 4.1 Mae hysbysiad preifatrwydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i chi beth i'w ddisgwyl pan fydd y Comisiynydd yn casglu gwybodaeth bersonol gan gynnwys: pwrpas y Comisiynydd dros brosesu'r wybodaeth, chyfnodau cadw'r wybodaeth a phwy bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gyda.

Polisi Cadw a Gwaredu Gwybodaeth

- 4.2 Mae Polisi Cadw a Gwaredu Gwybodaeth y Comisiynydd yn pennu'r cyfnod y mae angen cadw'r cofnod a'r camau y dylid eu cymryd pan nad oes defnydd pellach iddo.
- 4.3 Mae Polisi Cadw a Gwaredu Gwybodaeth y Comisiynydd yn nodi cyfnodau cadw ar gyfer y gwahanol fathau o ddata personol sy'n cael ei ddal ganddo.

Cynllun cyhoeddi Comisiynydd y Gymraeg

- 4.4 Mae cynllun cyhoeddi Comisiynydd y Gymraeg yn esbonio pa wybodaeth am y Comisiynydd a'i waith sy'n cael ei rhyddhau i'r cyhoedd fel mater o drefn.